# Adroddiad Blynyddol

**2021**




PARTNERIAETH OGWEN

# Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Ogwen 2021

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn gofnod o waith Partneriaeth Ogwen yn ystod y cyfnod rhwng Rhagfyr 2020 a Rhagfyr 2021. Mae'r adroddiad yn crynhoi prif brosiectau'r Bartneriaeth gan dynnu sylw at ymdrechion staff a gwirfoddolwyr Partneriaeth Ogwen yn ystod y flwyddyn. Mae cysgod Covid-19 wedi parhau yn ystod y flwyddyn a aeth heibio ond mae'r Bartneriaeth wedi llwyddo i dyfu a datblygu nifer o brosiectau newydd.

## Gweledigaeth Partneriaeth Ogwen

*Cyd-greu dyfodol lle mae'r economi, yr iaith a'r diwylliant, yr amgylchedd a'n cymuned yn ffynnu.*

Yn unol â'n Cynllun busnes 2019-2022, gweledigaeth Partneriaeth Ogwen yw creu cymuned a sefydliad cydnerth sy'n gweithredu'n arloesol er budd cymunedau, economi ac amgylchedd Dyffryn Ogwen.

Rydym yn amcanu i wneud hyn trwy:

-Gryfhau seiliau'r sefydliad gan gynyddu'n cymhwysedd staffio i ddarparu gwasanaethau a phrosiectau o'r ansawdd uchaf
-Gwarchod a chreu ffrydiau incwm newydd
-Atgyfnerthu ein polisïau a gweithdrefnau mewnol i warchod ein staff a gwirfoddolwyr.
-Blaenoriaethu prosiectau sy'n creu budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gyda ffocws ar drosglwyddo asedau cymunedol, prynu asedau newydd i greu incwm a phrosiectau sy'n gwneud ein cymuned yn fwy gwydn, cynaliadwy a chydnerth.
-Cydweithio yn arloesol gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhanbarthol.

Yn treiddio trwy hyn oll mae'r thema cynaladwyedd sy'n greiddiol i'n holl weithgareddau ac yn cwmpasu cynaladwyedd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Yn ystod 2021, rydym wedi mabwysiadu Llwybr Trawsnewid (Theory of Change) sy'n gosod amcanion a deilliannau byrdymor a hir dymor i'n gwaith a gosod fframwaith i fesur effaith ein prosiectau. Yn 2022, ein bwriad yw cyhoeddi adroddiad gwerth cymdeithasol ein gwaith yn cydfynd â'r targedau a amlinellwyd yn ein Llwybr Trawsnewid.

## Staff, Pwyllgor Rheoli ac Aelodau Bwrdd Partneriaeth Ogwen

**Staff**

Prif Swyddog – Meleri Davies

Clerc a Rheolwr Gweinyddol – Donna Watts

Clerc a Swyddog Gweinyddol – Bethan Griffith

Swyddog Cyllid – Lliwen Morris

Gofalwr Eiddo – Dylan Jones

Rheolwr Datblygu Cefnfaes – Cynan Jones

Rheolwr Dyffryn Gwyrdd – Huw Davies

Swyddog Llesiant a'r Amgylchedd – Judith Kaufmann

Swyddog Llesiant a'r Amgylchedd/Gwefan Ogwen.cymru a Gofod Gwneud a Thrwsio – Tom Simone

Gyrrwr Cymunedol Dyffryn Gwyrdd – Dewi Roberts

Swyddog Cefnogi Dyffryn Gwyrdd – Menna Thomas

Datblygwr Cymunedol 2021 – Lucinda Enston

Cyfaill Cymunedol a Swyddog Datblygu Siop Ogwen – Elen Williams

Cyfaill Cymunedol – Anna Sethi

Swyddog Cefnogi Cymunedol (Kickstart) – Ianto Shea

Swyddog Cefnogi Siop Ogwen (Kickstart) – Morgan Rees Owen

Swyddog Cefnogi Daucanmlwyddiant Bethesda – Caleb Rhys

Cydlynydd Llyfrgell y Pethau Dolan – Catrin Wager

Yn ystod haf 2021 hefyd, cyflogwyd Anna Sethi, Cadi Roberts a Hannah Morgan i weithio efo Partneriaeth Ogwen fel rhan o raglen Byw a Bod 2. Am 8 wythnos, bu'r dair yn edrych ar ddulliau ymgysylltu efo pobl ifanc gan lunio adroddiad ar eu canfyddiadau. Mae Anna Sethi wedi cael swydd efo Partneriaeth Ogwen ers gweithio efo ni ar gynllun Byw a Bod 2.

**Cyfarwyddwyr Partneriaeth Ogwen**

Dafydd Meurig

Dafydd Owen

Rheinallt Puw

Cyngor Cymuned Bethesda (Cynrychiolir gan Pearl Evans, Neville Hughes, Dyfrig Jones, Griff Charles Morris a Godfrey Northam) Donna i checio hwn – lle ma enw dyfrig?
Cyngor Cymuned Llanllechid (Cynrychiolir gan Geraint Hughes a Kevin Glyn Williams)

Cyngor Cymuned Llandygai (Dafydd Owen a Mair Owen Pierce)

**Pwyllgor Rheoli**

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn ddirprwyaeth o Fwrdd llawn Partneriaeth Ogwen ac yn gynrychioladol o'r tri chyngor cymuned lleol. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod bob deufis i fonitro rhaglen waith Partneriaeth Ogwen. Y Pwyllgor Rheoli yw:

Geraint Hughes – Cynghorydd Cymuned Llanllechid

Neville Hughes – Cynghorydd Cymuned Bethesda

Dafydd Meurig – Cadeirydd Partneriaeth Ogwen a Chynghorydd Sir

Jane Temple Morris – Cynghorydd Cymuned Llanllechid

Dyfrig Jones – Cynghorydd Cymuned Bethesda

Dafydd Owen – Cynghorydd Sir

Mair Pierce – Cynghorydd Cymuned Llandygai

Rheinallt Puw – Cynghorydd Sir



Staff a Chadeirydd Partneriaeth Ogwen gyda Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru ym mis Gorffennaf 2021.

# CYMUNED




## Cefnogi ein cymuned yn y Normal Newydd

Wrth i ni ddod allan o gyfnodau clo Covid-19 a cheisio helpu ein cymuned i ymdopi â normal newydd bywyd mewn pandemig, bu staff y Bartneriaeth yn gweithredu'n ofalgar wrth ddatblygu a chynnal prosiectau i gefnogi ein cymuned. Mae nifer o'r prosiectau hyn yn cael eu arwain gan dim Dyffryn Gwyrdd – prosiect arloesol i atal tlodi trwy weithredu amgylcheddol lleol.

**Pantri Pesda**

Yn 2020, cydweithiodd Partneriaeth Ogwen gyda gwirfoddolwyr lleol i ddatblygu Cronfa Gefnogi Gymunedol yn Neuadd Ogwen. Bu'r gronfa yn adnodd pwysig i deuluoedd yn ystod y pandemig a diolchwn yn fawr i Manon Llwyd, sylfaenydd y gronfa am ei charedigrwydd a'i gwaith caled. Gyda Neuadd Ogwen yn ail-agor cytunwyd fod y Gronfa Cefnogi Cymunedol yn symud cartref i Ganolfan Cefnfaes yng nghanol 2021. Cymerodd tîm y Dyffryn Gwyrdd yr awennau a rhoi cyfeiriad newydd i'r prosiect drwy ei fedyddio'n 'Pantri Pesda'. Bellach mae criw o dros 20 o

wirfoddolwyr yn ymrwymo i rannu'r bwyd yn rheolaidd ac fel canlyniad mae'r prosiect yn lleihau gwastraff i dirlenwi, yn darparu bwyd maethlon i deuluoedd lleol ac yn adnodd cymdeithasol newydd gwerthfawr. Yn ystod y flwyddyn, mae'r cynllun wedi arbed gwerth 5037kg o fwyd fyddai wedi ei wastraffu ac wedi darparu bwyd i nifer o deuluoedd y Dyffryn.

PANTRI PESDA

bwyd@ogwen.org / 07561648824

@PantriPesda

**Gwirfoddoli**

Penodwyd Cydlynydd Gwirfoddolwyr i dîm Dyffryn Gwyrdd a mae'r cydlynydd wedi arwain ymgyrchoedd i recriwtio gwirfoddolwyr newydd ar gyfer Pantri Pesda a gwirfoddolwyr i gasglu sbwriel. Mae dros 70 o wirfoddolwyr ar fasdata sefydlog Partneriaeth Ogwen hyd yma.

Cynhaliwyd Gwyl Gerddi a Gwirfoddoli yn Llys Dafydd ym mis Mehefin gan roi cyfle i sefydliadau sy'n rhan o Grwp Llywio Dyffryn Gwyrdd rannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd am eu cyfleoedd gwirfoddoli amgylcheddol.

Rydym hefyd wedi trefnu nifer o gasgliadau sbwriel gyda gwirfoddolwyr lleol ar y cyd a mudiadau eraill megis Balchder Bro a Bethesda Litter Pickers.



***Cyfaill Cymunedol***

Sefydlwyd y gwasanaeth Cyfaill Cymunedol yn ystod y clo 2020 i ddanfon bwyd i gartrefi. Mae'r gwasanaeth a weithredir mewn partneriaeth gyda Chaffi Coed y Brenin wedi parhau'n boblogaidd iawn. Danfonwyd bwydydd cartref maethlon ddwywaith yr wythnos ar draws y Dyffryn yn ogystal a threfnu sesiynau cymdeithasol a phrynhawniau coffi ar gyfer trigolion hyn yr ardal. Roedd y pnawniau coffi hyn yn cynnwys cyflwyniadau ar fwyta'n iach gan y maethegydd lleol Angharad Griffiths a dosbarthwyd taflenni gwybodaeth am fwydydd maethlon i'r holl fynychwyr.





# IAITH A DIWYLLIANT






Gweithdy celf Daucanmlwyddiant Bethesda i blant a arddangosfa ffenestr siop i gydfynd efo dathliad pen blwydd Llyfr Mawr y Plant.

# Adroddiad Blynyddol- Partneriaeth Ogwen

## Cynnal y Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn rhan naturiol ac organig o waith Partneriaeth Ogwen. Cymraeg yw iaith weinyddol fewnol y cwmni a Chymraeg yw iaith weinyddol y prosiectau newydd yr ydym yn eu sefydlu. Rydym yn cynnig cyfleoedd cyflogi a gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg i bobl leol ac yn ymhyfrydu yn y ffaith bod nifer o ddysgwyr yn gwirfoddoli ac yn gwella eu Cymraeg efo ni. Mae'r Prif Swyddog yn aelod o Fwrdd Partneriaeth y Gymraeg gan rannu ei arbenigedd o ran cynnal y Gymraeg yn gymunedol.

## Siop Ogwen

Er fod y siop yn endid cyfreithiol annibynnol, mae'r Bartneriaeth yn parhau i reoli gweinyddiaeth y siop ac i gefnogi'r Swyddog Datblygu o ran rheoli rhaglen waith a gweithgareddau'r siop. Mae'r siop yn cyfrannu tuag at hyfywedd y Stryd Fawr ond mae hi hefyd yn bwysig o ran hyrwyddo'r iaith a llenyddiaeth Gymraeg. Yn ystod 2021, cynhaliodd Swyddog Datblygu'r siop nifer o weithdai celf ar lein a wyneb yn wyneb i blant gan strwythuro'r sesiynau o gwmpas llyfr newydd Cymraeg i blant. Bu'r Siop hefyd yn cyfrannu at ddigwyddiadau diwylliannol eraill dan arweiniad Partneriaeth Ogwen yn cynnwys dathliadau Daucanmlwyddiant Bethesda gyda gweithdy celf arbennig yn dilyn traddodiad cerfio llechi cerfiedig Dyffryn Ogwen. Ym mis Tachwedd hefyd, trefnwyd digwyddiad cymunedol arbennig i ddathlu pen blwydd Llyfr Mawr y Plant – un o lyfrau eiconig y Dyffryn.




## Gweithdy Celf a Stori Mis Medi

Mae'r Clwb Darllen Cymraeg a sefydlwyd gennym yn 2020 wedi parhau i gael ei redeg gan wirfoddolwr gyda chefnogaeth Siop Ogwen. Rydym hefyd yn trefnu nosweithiau llenyddol achlysurol a sesiynau llofnodi llyfrau gydag awduron lleol yn cynnwys Manon Steffan Ross.

**Daucanmlwyddiant Bethesda**

Yn dilyn cais llwyddiannus i Gronfa Treftadaeth Loteri trefnwyd digwyddiadau, darlithoedd a gweithdai i godi ymwybyddiaeth a dathlu dauncanmlwyddiant Bethesda yn cynnwys yr isod.

**Darlithoedd**

Ar y cyd a phrosiect LleChi a Dolan, trefnwyd rhaglen o ddarlithoedd o berthnasedd lleol yn cynnwys

-Darlith Daucanmlwyddiant Bethesda gyda John Llewelyn Williams a Lowri Williams
-Darlith 'Llechi a'r Byd' gyda Dafydd Roberts.
-Trafodaeth Banel – Castell Siwgr efo Lois Jones o Gastell Penrhyn, Angharad Tomos, awdures Castell Siwgr, Lowri Ifor o Amgueddfa Lechi, Gareth Evans Jones o Brifysgol Bangor a Cian Rhys, Llysgennad Ifanc Llechi Dyffryn Ogwen.

Cynhaliwyd y darlithoedd hyn arlein oherwydd cyfyngiadau cofid a denwyd cyfanswm o 262 o fynychwyr i gyd gydag adborth cadarnhaol tu hwnt i bob darlith.

**Ffilm Dathlu Bethesda**

Comisiynwyd Cerdd Cymunedol Cymru a Neuadd Ogwen i gynnal gweithdai ffilmio, cyfweld a golygu cymunedol a chreu ffilm 'Lleisiau Lleol' Bethesda. Roedd y ffilm orffenedig yn gasgliad o gyfweliadau gyda chymeriadau lleol a cynhaliwyd digwyddiad arbennig yn Neuadd Ogwen i lawnsio'r ffilm yn swyddogol. Daeth oddeutu 50 o bobl ynghyd i wylio'r ffilm. Mae cofnod digidol o'r ffilm ar www.ogwen.cymru

**Prosiect Ffotograffiaeth 'Bethesda Ddoe a Heddiw'**

Mewn partneriaeth a Chlwb Camera Dyffryn Ogwen, gwnaed galwad agored am luniau o Fethesda fel rhan o ddathliadau Dauncamlwyddiant Bethesda a galwad i atgynhyrchu'r delweddau ar eu ffurf cyfoes. Rhannwyd y lluniau gwreiddiol a'r atgynhyrchiadau ar dudalen Facebook Dauncamlwyddiant Bethesda a lluniwyd oriel o luniau parhaol ar wefan www.ogwen.cymru Roedd y prosiect yma'n ddull ymarferol o gael pobl i drafod eu atgofion am Fethesda gan gofio sut oedd Stryd Fawr Bethesda yn edrych ers talwm a sut mae hi wedi newid. Cynhaliwyd tafluniad rhithiol o'r holl luniau 'Bethesda Ddoe a Heddiw' ar dalcen adeilad amlwg ar Stryd Fawr Bethesda. Roeddem yn frwd iawn i dynnu perchnogion busnesau'r Stryd Fawr i mewn i'r prosiect yma a gwahoddwyd pob busnes i gael tynnu eu lluniau i gael eu taflunio yn fyw ar dalcen y Stryd Fawr. Mae rhain yn gofnod parhaol o Stryd Fawr Bethesda 2021 a bu'r tafluniad yn ddathliad o'r hen a'r cyfoes.

### Gweithdai Cerfio Llechi






*Cerflunwaith cymunedol yn nhraddodiad Cerfio Llechi y Chwarelwyr gyda'r artistiaid Dave Stephen, Sian Owen ac Ann Catrin Evans.*

Trefnwyd 6 gweithdy cerfio llechi i greu celfwaith cymunedol yng Nghardd Tan Twr fel rhan o brosiect Daucanmlwyddiant Bethesda. Arweiniodd Partneriaeth Ogwen y cydlynu, marchnata a threfniadau ar gyfer y 6 gweithdy cymunedol gyda prosiect LleChi yn talu am gostau'r artistiaid Ann Catrin Evans, Sian Owen a Dave Stephen. Roedd y gweithdai yn agored i bawb yn ein cymuned i ddod i gerfio llechi a chreu darn o gelf cyhoeddus a osodwyd yng Nghardd Tan Twr. Trefnwyd un o'r gweithdai gyda disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen gyda 7 o bobol ifanc yn dysgu'r grefft o gerfio llechi.

Daeth 46 o bobl i'r gweithdai i gyd gyda'r mynychwyr yn amrywio o ran oed a diddordeb. Roedd ambell artist lleol yn eu plith gyda'r rhain yn parhau i ddefnyddio'r sgiliau a ddysgwyd yn eu gwaith celf tu hwnt i'r sesiwn. Mae Ann Catrin Evans hefyd wedi creu offer cerfio i'w rhoi i Bartneriaeth Ogwen i barhau gyda'r math yma o sesiynau yn ein cymuned yn y dyfodol.

Cynefin a Chymuned

Gyda chefnogaeth grant gan gynllun LleChi, trefnodd y Bartneriaeth gyfres o ddarlithoedd, trafodaethau a theithiau cerdded yn dathlu Cynefin a Chymuned Dyffryn Ogwen yn Neuadd Ogwen, Bethesda ym mis Medi. Roedd arlwy'r penwythnos yn cynnwys darlithoedd ysbrydoledig gan ysgolheigion, darlithwyr, haneswyr lleol a caredigion cymunedol yr ardal. Daeth dros 100 o bobl i'r holl weithgareddau yn ystod y penwythnos a gobeithir trefnu digwyddiad tebyg eto yn 2022. I gloi'r diwrnod, cafwyd cyflwyniad ar fentergarwch cymunedol cyfoes gan Brif Swyddog Partneriaeth Ogwen gan roi cyfle i'r gynulleidfa ddathlu'r gweithredu cymunedol arloesol sy'n digwydd yn y Dyffryn a thu hwnt.
Mae cofnod o'r recordiadau ar sianel Partneriaeth Ogwen ar www.amam.cymru






# YR AMGYLCHEDD




*Yr AS Hywel Williams a Sian Gwenllian yn agor swyddfa Dyffryn Gwyrdd efo Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen a Huw Davies, Rheolwr Dyffryn Gwyrdd.*

**Dyffryn Gwyrdd**

Mae tîm o 8 o staff bellach yn gweithio ar amrywiol brosiectau amgylcheddol a chymunedol Dyffryn Gwyrdd. Dyma brosiect cymunedol amgylcheddol mwyaf Partneriaeth Ogwen sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae'r prosiect hwn yn gynllun i atal tlodi trwy weithredu amgylcheddol cymunedol gyda thîm o staff yn arwain ystod eang o brosiectau taclo tlodi tanwydd, tlodi trafnidiaeth a thlodi bwyd.

***Tyfu a Phlannu Cymunedol***

Fel rhan o waith llesiant a’r amgylchedd tîm Dyffryn Gwyrdd, rydym wedi llwyddo i greu gofodau gwyrdd a gerddi cymunedol newydd yn y Dyffryn. Cafwyd cyfnod prysur iawn gyda effaith gweladwy sylweddol wrth i Lys Dafydd gael ei atgyfodi a’i ail-blannu gyda phlanhigion bwytadwy. Denwyd cyllid hefyd i ail-wneud gardd Tan Twr yn ardd ar gyfer peillwyr a bywyd gwyllt.

Un o brif lwyddiannau’r cyfnod oedd sefydlu partneriaeth newydd gyda Chwmni Byw’n Iach gan greu gardd gymunedol a rhandiroedd ym Mhlas Francon, Bethesda. Erbyn hyn, mae saith o randirwyr wedi ymaelodi a chriw bychan o wirfoddolwyr yn presenoli yn yr ardd yn rheoliadd ar foreau Mercher.





Yn ogystal â'r gerddi newydd, cafwyd sesiynau plannu blodau gwyllt mewn stadau tai yn cynnwys Arafon ym Mynydd Llandygai a Chiltrefnus yn Gerlan, a phlannu gardd fach ym Maes Bleddyn efo disgyblion Ysgol Llanllechid. Ym mis Hydref hefyd, trefnwyd diwrnod cynaeafu afalau yn Llys Dafydd gyda'r gymuned yn dod at ei gilydd i wasgu sudd afal.

Rydym wedi plannu coed ffrwythau gaeaf diwethaf i greu perllanau cymunedol Ogwen sy'n cynnwys 9 safle ar draws y dyffryn ar hyn o bryd (Fferm Moelyci, Fferm Pandy, Canolfan Tregarth, cornel stryd Penyffriddoedd, ochr llwybr uwchben Rachub, Llys Dafydd, Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Abercaseg). Fis Ionawr 2022, byddwn yn ychwanegu Clwb Rygbi a cae chwarae Rachub, a bydd 100 o goed ffrwythau gyda mynediad agored atyn nhw.

Plannwyd coed derw hefyd mewn ymgyrch i atal newid hinsawdd.

*Tlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni*

Mae atal tlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni hefyd yn rhan o amcanion prosiect Dyffryn Gwyrdd a trefnwyd dwy sesiwn cynghori ar lein ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn gyda'r rhagofalon Cofid-19 yn llacio cynhaliwyd dwy sesiwn gynghori wyneb yn wyneb yng nghanolfan Dyffryn Gwyrdd a Pantri Pesda. Rydym wedi cydweithio gyda Adra a Travis Perkins i ddatblygu taflenni gwybodaeth ar effeithlonrwydd ynni a bydd y taflenni hyn yn cael eu dosbarthu yn sesiynau Pantri Pesda ac yn hwb y Dyffryn Gwyrdd.

*Lleihau tlodi trafnidiaeth - Cludiant Cymunedol Dyffryn Gwyrdd*

Er mai diben gwreiddiol Efan y car trydan oedd cludo unigolion i apwyntiadau a digwyddiadau cymdeithasol ni lwyddwyd i wneud hynny yn ystod y flwyddyn gyntaf oherywdd heriau'r pandemig. Serch hynny gyda'r sefyllfa wedi llacio rhywfaint erbyn yr hydref gwnaed defnydd ohono ar gyfer y pnawniau coffi gan gludo'n defnyddiwr cyntaf nol i Dregarth yn ddiwedar. Byddwn yn cael gosod step fynediad newydd ar y cerbyd ddechrau Ionawr a bydd hyn yn hwyluso mynediad a byddwn yn hyrwyddo'r defnydd ar gyfer teihiau ysbyty ac hamdden. Mae'r cerbyd hefyd wedi cael defnydd rheolaidd erbyn hyn gan Ysgol Dyffryn Ogwen wrth gludo disgyblion i wersi yng Nghaernarfon a Llangefni.

Yn ystod y cyfnod adrodd cafwyd cefnogaeth ariannol gan gronfa Hwb i'r Hinsawdd y Loteri Genedlaethol a cafwyd ail gar trydan ar gyfer y Dyffryn Gwyrdd. Defnyddwyd y car newydd ar gyfer defnydd gan aelodau'r cyhoedd ar fodel llogi am ffi dyddiol.

Bedyddiwyd y cerbydau hyn a fan drydan y Bartneriaeth gan blant Ysgol Llanllechid – Efan, Tryfan a Carnedd.








**Beics Ogwen**
Mae’r elfen hon o waith y Dyffryn Gwyrdd wedi datblygu'n dda gyda sawl sesiwn hamdden e.e teithiau i Foelyci ar hyd y Lon Las a threialu'r beics retro-osod gan sawl aelod o'r gymuned, yn ogystal a Lee Waters, Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar ymweliad diweddar a Bethesda. Bellach, mae gwirfoddolwr rheolaidd yn cydweithio ar sesiynau a mae’r Loteri wedi cytuno i ni greu swydd Technegydd Beics 14 awr yr wythnos fel treial am dri mis i adnabod y potensial. Yn sgil ymweliad Lee Waters cyflwynwyd cais am gefnogaeth ariannol i gronfa Teithio Llesol a gobeithiwn gael ymateb yn yr wythnosau nesaf.

Fel rhan o waith asesu effaith ein gwaith, dyma rai o ystadegau perthnasol o safbwynt efaith prosiect Dyffryn Gwyrdd.




**Ynni Ogwen**

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau i ddarparu gwasanaeth ysgrifenyddol i Fwrdd Ynni Ogwen dan gytundeb lefel gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaeth trefnu a chymryd cofnodion yng nghyfarfodydd Bwrdd a chyfarfodydd cyffredinol blynyddol, llunio cylchlythyron aelodaeth ac arwain ar waith cyfryngau cymdeithasol Ynni Ogwen.

**Llyfrgell y Pethau**

Yn ystod y flwyddyn, arweiniodd Partneriaeth Ogwen ar dendr ar ran rhwydwaith Dolan (Cwmni Bro Ffestiniog, Siop Griffiths a Phartneriaeth Ogwen) i sefydlu 3 Llyfrgell y Pethau yng Nghwynedd. Roedd y tendr yn llwyddiannus a penodwyd Cydlynydd i Lyfrgell y Pethau ym mis Medi 2021. Bydd y Cydlynydd yn arwain ar sefydlu y dair llyfrgell ym Mlaenau Ffestiniog, Penygroes a Bethesda gyda phwyslais y gwaith ar leihau tlodi, lleihau prynwriaeth (consumerism) ac annog diwylliant o rannu yn ein cymunedau.




Catrin Wager – Cydlynydd Llyfrgell y Petha yng nghymunedau Dolan gyda Llyfrgellydd Cymunedol Dyffryn Ogwen a Phrif Swyddog Partneriaeth Ogwen.


**GwyrddNi**

Mae Partneriaeth Ogwen yn bartner ym mhrosiect GwyrddNi – prosiect dwy flynedd a ariennir gan y Loteri Genedlaethol i sefydlu cynlluniadau newid hinsawdd ym Mhen Llyn, Dyffryn Nantlle, Bro Ffestiniog, Dyffryn Peris a Dyffryn Ogwen. Penodwyd Cydlynydd Newid Hinsawdd i Ddyffryn Ogwen a bydd yn sefydlu Cynulliad Newid Hinsawdd cyntaf Dyffryn Ogwen yn 2022. Y bwriad yw annog ein cymuned i berchnogi'r agenda newid hinsawdd yn lleol.

**CRF ADRA Gwynedd Sero Net**

Mae Partneriaeth Ogwen hefyd yn bartner mewn cais llwyddiannus i gronfa Adfywio Cymunedol y Deyrnas Unedig. Mae'r cais hwn werth dros £600,000 a bydd Partneriaeth Ogwen yn arwain ar un pecyn gwaith i sefydlu hybiau cynaladwyedd cymunedol mewn 6 cymuned ar draws y dalgylch.

# ECONOMI



CADWYN OGWEN

CEGIN CADWYN OGWEN

## QUESADILLA GYDA CAWS COSYN, MADARCH SHIITAKE A CÊL

Dyma ginio bach hawdd a chyflym sy'n llawn ffibr ac mae'r madarch Shiitake o'r Ardd Fadarch yn ffynhonnell wych o fitamin D.

### CYNHWYSION

BWYDO 2

Pryd i un = CALORIAU: 247 PROTEIN: 10.8g
CARBS: 30.5g BRASTER: 7.9g

- 2 tortilla blawd cyflawn
- 50g Cosyn Brefu Bach, wedi'i dorri'n dafelli bach
- 10g Madarch shiitake sych (Yr Ardd Fadarch)
- Llond llaw o gêl (neu sbigoglys neu roced)
- Halen a phupur

### DULL

- Berwch degell ac arllwyswch y dŵr berw dros y madarch am 20 munud (cofiwch i gadw y stoc blasus am rywbeth arall!)
- Cynheswch badell ffrio ar wres uchel.
- Paratowch eich holl gynhwysion yn barod ac yna rhowch y gwres lawr i ganolig.
- Rhowch 1 o'r tortillas yn fflat ar y badell ffrio sych, poeth. Yna rhowch y caws, y cêl (neu'r llysiau gwyrdd eraill) a'r madarch yn gyflym a rhywfaint o halen a phupur ar hyd a lled y tortilla, gan sicrhau eu bod yn cael eu rhannu'n gyfartal.
- Rhowch y tortilla arall ar ei ben. Coginiwch am 2-3 munud yna trowch drosodd a choginiwch yr ochr arall am 2-3 munud nes bod y tortilla wedi brownio a bod y caws yn dechrau toddi.
- Yna, torrwch yn chwarteri a'i rannu ar ddau blât gyda salad ochr.

PARTNERIAETH OGWEN

Cefnogir gan Llywodraeth Cymru
Supported by Welsh Government

# Cadwyn Ogwen

Cynllun cydweithredol i werthu, danfon a chefnogi cynnyrch lleol yn Nyffryn Ogwen. Fe'i sefydlwyd mewn ymateb i'r pandemig yn 2020 gyda chefnogaeth busnesau lleol a grantiau cyhoeddus. Yn 2021, cyflogwyd Swyddog Datblygu i'r cynllun trwy gynllun Llechi, Glo a Chefn Gwlad gyda'r swyddog yn gweithio'n llawn amser ar y cynllun. Yn ystod y cyfnod, agorwyd siop pop yp cynnyrch lleol ar y Stryd Fawr gan roi llwyfan ychwanegol i gynhyrchwyr werthu eu cynnyrch yn ein cymuned. Datblygwyd ryseitiau a ffilmiau coginio yn defnyddio cynnyrch Cadwyn Ogwen gan roi syniadau i gwsmeriaid am beth i'w wneud efo'r cynnyrch safonol sy'n cael ei werthu ar y Gadwyn. Llwyddwyd hefyd gyda chais grant i ariannu fan drydan i gefnogi'r cynllun gyda'r fan yn cael ei ddefnyddio i gludo a danfon cynnyrch yn yr ardal. Cafwyd grant i osod pwynt gwefru hefyd. Cefnogir 17 o gwmniau ar y gadwyn ddigidol a thua 10 o gwmniau yn y siop pop yp. Ers i'r clo ddod i ben, mae gwerthiant trwy'r Gadwyn ddigidol wedi sefydlogi gyda oddeutu 25 o gwsmeriaid bob wythnos yn prynu cynnyrch lleol o'n gwefan. Comisiynwyd gwerthusiad gan Cynan Jones ar gynllun Cadwyn Ogwen gan osod argymhellion o ran datblygiad y cynllun tua'r dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, gwerthwyd gwerth £33,687 o gynnyrch ar ran cynhyrchwyr lleol.




Llun – Prif Weinidog Cymru Mark Drakeford o flaen Siop Pop Up Cadwyn Ogwen efo Mark Gray Bwyd Mor Menai, Carrie Rimes Cosyn Cymru, Lucinda Enston Swyddog Datblygu Cadwyn Ogwen, Meleri Davies Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen a Dafydd Meurig Cadeirydd y Bartneriaeth.

**Canolfan Cefnfaes**

Yn ystod 2021, cyflwynwyd ceisiadau i ddwy gronfa sylweddol gyda llwyddiant yn denu grant o £225,000 o Raglen Cyfleusterau Cymunedopl Llywodraeth Cymru , ond yn anffodus ni fu ein cais I gronfa Pawb a'i Le y Loteri yn llwyddianus.

Yn sgil hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi caniatau i ni ddefnyddio arian y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol i ddatblygu'r adeilad mewn tri cham :
Cam 1 **-** Datblygu yr elfennau cymunedol o'r adeilad sef Ystafell Amlbwrpas , cegin safonol a dau weithdy sylweddol , hefyd gosod elfennau isadeiledd yn eu lle a fydd yn gweithio hefo y rhannau eraill o'r adeilad pan y byddent yn cael eu datblygu. E.e systemau gwresogi , diogelwch a thân.
Cam 2 **-** Creu'r Gweithdai i'w gosod i fusnesau lleol

Cam 3**-** Y Byncws.

Y mae ceisiadau Grantiau ac /neu Fenthyciadau trwy Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru a chronfeydd grantiau eraill ar y gweill i ariannu gwedd 2 a 3 o'r prosiect.

Yn ystod y cyfnod cyn ddatblygol yma, mae'n braf cael dweud bod yr adeilad yn llawn fel ag y mae gyda thenantiaid yn cynnwys staff Prosiect Y Carneddau a chwmni Black Dragon Kickboxing ac ystorfa I brosiect sydd yn gweithio gyda phobl ifanc bregus. Mae'r ganolfan hefyd yn gartref i nifer o brosiectau'r Bartneriaeth yn cynnwys Pantri Pesda, Gofod Gwneud a Chaffi Trwsio, Gweithdy Beics y Dyffryn Gwyrdd, Ystafell cyd weithio ble mae busnesau a/neu sefydliadau yn medru llogi desgiau.

Y mae incwm y rhenti yn cyfarch y costau rhedeg ac felly yn gosod sail gadarn i'r camau nesaf i ddatblygu'r adeilad.

**Gwefan www.ogwen.cymru a Chynllun WiFi Cymunedol**

Mae gwefan www.ogwen.cymru yn parhau fod yn adnodd i hyrwyddo gweithgarwch cymunedol a busnesau lleol. Rydym yn parhau i gyflogi swyddog i gynnal y wefan hon hanner diwrnod yr wythnos a mae mwy o fusnesau a mudiadau yn awr yn hysbysebu ar y wefan. Mae'r swyddog hefyd yn cynnal podlediadau 'Howgets' gan roi sylw i fusnesau a chymeriadau lleol.




**Gwaith Ymgynghorol a Gwasanaeth Cyllid**

Rydym yn parhau i ddatblygu ffrydiau incwm newydd a dulliau o gefnogi busnesau a sefydliadau lleol yn Nyffryn Ogwen. Rydym bellach yn darparu gwasanaeth cyllid i Gwmni Addysg Rhyw, Cwmni Tabernacl Bethesda Cyf a Chlwb Rygbi Bethesda. Rydym wedi cyflogi Swyddog Cyllid i gynorthwyo gyda'r gwaith yma sy'n cynnwys gwasanaeth cadw llyfrau, cyflogres ayyb.

Rydym hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaeth ymgynghorol masnachol hefyd gyda Cynan Jones yn arwain contractau masnachol i fudiadau trydydd sector ar draws gogledd Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwaith i Ganolfan Owain Glyndwr, Llety Arall ac O Ddrws i Ddrws.

Ym mis Tachwedd 2021, dyfarnwyd grant gan Gronfa Gwirfoddol Cymru i ariannu prosiect fydd yn galluogi'r Bartneriaeth i ddatblygu'r gwaith yma ymhellach gyda ffocws ar ddatblygu pecyn o wasanaethau yn cynnwys gwasanaeth clercio i'r trydydd sector.

## Twristiaeth Gymunedol a Bws Gwennol

Yn ystod 2021, cyflwynwyd cais llwyddiannus i gronfa Ewropeaidd 'Cadwyni Cyflenwi a Chydweithredu' am fws gwennol trydan i gludo twristiaid i fyny i Nant Ffrancon yng nghyfnodau gwyliau brig. Byddwn yn penodi staff i arwain y prosiect a bydd y bws yn cyrraedd fis Chwefror 2022. Bydd y bws yn wasanaeth newydd a fydd, gobeithio, yn datrys rhai o'r problemau parcio i fyny ger Llyn Ogwen a bydd hefyd yn dod â budd economaidd i Fethesda wrth i dwristiaid barcio yn y pentref. Bydd hefyd yn dod â budd amgylcheddol drwy leihau allyriadau carbon yn y parc. Bydd y bws gwennol hefyd ar gael i grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol tu hwnt i gyfnodau twristiaeth.

### Adeilad y Spar

Cyflwynwyd dau gais llwyddiannus i brynu adeilad yr hen Spar ym Methesda yn Hydref 2021 - £227,000 gan Lywodraeth Cymru a £20,000 gan Barc Cenedlaethol Eryri. Mae pryniant yr eiddo yn awr yn nwylo ein cyfreithwyr a byddwn yn gweithio ar geisiadau i atgyweirio'r adeilad i'w ddatblygu fel canolfan fanwerthu a threftadaeth.

## Sgiliau a Phobl Ifanc

### Byw a Bod 2

Yn ystod haf 2021, bu Partneriaeth Ogwen yn rhan o brosiect Byw a Bod 2 gan Arloesi Gwynedd Wledig. Cyflogwyd 3 person ifanc dros gyfnod o 8 wythnos gan arwain ar brosiect i edrych ar y rhwystrau i bobl ifanc gyfranogi yn eu cymuned. Mae Anna Sethi wedi parhau i weithio i'r tim ar sail ei phrofiad gwaith gyda ni yn haf 2021.

### Kickstart

Yn ystod 2021, rydym wedi cael dau berson ifanc i weithio efo Partneriaeth Ogwen a Siop Ogwen trwy gynllun cyflogaeth Kickstart Llywodraeth San Steffan. Mae Morgan Rees Evans yn gweithio yn Siop Ogwen a Ianto Shea yn gweithio efo'r Bartneriaeth yn helpu prosiectau Dyffryn Gwyrdd a Cadwyn Ogwen.

## Llechi Glo Cefn Gwlad

Mae Partneriaeth Ogwen yn ail flwyddyn prosiect cenedlaethol arloesol o'r enw Llechi, Glo a Chefn Gwlad sy'n dod â 9 menter gymdeithasol o ardaloedd gwahanol o Gymru at ei gilydd. Gyda chefnogaeth y Rank Foundation a'r Loteri Genedlaethol, bydd 27 o brentisiaid cymunedol yn gweithio efo 9 menter gymdeithasol ar draws Cymru dros gyfnod o 3 mlynedd. Yn 2021, cyflogwyd Lucinda Enston fel Arweinydd Cymunedol Partneriaeth Ogwen a bu'n arwain prosiect Cadwyn Ogwen. Yn ogystal a chael profiad ymarferol o weithredu cymunedol, mae Lucinda wedi cael hyfforddiant dablygu cymunedol a phrofiad o fod yn rhan

o rwydwaith genedlaethol arloesol. Bydd arweinydd cymunedol 2022 yn dechrau ym mis Ionawr.



Lucinda Enston - Arweinydd Cymunedol fel rhan o brosiect Llechi Glo a Chefn Gwlad 2021

## Prosiect y Carneddau a Chais Safle Treftadaeth y Byd Unesco

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau yn aelod o Fwrdd Partneriaeth prosiect Partneriaeth y Carneddau sydd wedi derbyn grant sylweddol gan gronfa Treftadaeth y Loteri. Rydym hefyd wedi bod ar grwpiau llywio lleol ar gyfer prosiect Llechi a byddwn yn parhau i gydweithio â chyngor Gwynedd yn sgil llwyddiant y cais. Yn ystod 2021, ariannodd cronfa LleChi nifer o brosiectau yn lleol yn cynnwys murlun trawiadol ar dalcen un o adeiladau Partneriaeth Ogwen.

Llun Rheinallt a Sian Gwenllian

## Eiddo a Gerddi

Mae ein portffolio eiddo yn gyfuniad o adeiladau fel a ganlyn:

Adeiladau rydym wedi'u prynu trwy grant a/neu fenthyciad (26 a 27 Stryd Fawr)

Adeiladau rydym yn gyfrifol amdanynt trwy gytundeb 'beneficial ownership' gyda Chyngor Cymuned Bethesda.

Adeiladau rydym â phrydles arnynt gan Gyngor Sir Gwynedd (Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen)

Yn ystod 2021, rydym wedi arwyddo prydles 3 blynedd ar adeilad Canolfan Cefnfaes ac wedi datblygu gofod gardd gymunedol Tan Twr a chydweithio gyda Canolfan Plas Ffrancon i ddatblygu rhandiroedd cymunedol.

## Siopau, Fflatiau a Stiwdios i denantiaid lleol

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau i weinyddu unedau ar Stryd Fawr Bethesda dan gytundeb 'beneficial ownership' gyda Chyngor Cymuned Bethesda. Mae pob uned yn llawn ac mae'r tenantiaid yn cynnwys:

Cwrw Ogwen – cwmni lleol sy'n bragu cwrw

Cwmni Bwyd Môr Menai – busnes bwyd môr lleol

Annie's Orphans – siop elusen yn gwerthu dillad, teganau a llyfrau ail law

Rydym hefyd yn llogi 2 stiwdio i gwmnïau creadigol lleol –

9Bach – artistiaid cerddorol sy'n hanu o'r Gerlan

Dyfal Donc – dylunwyr gwaith celf a chrefft cyfoes o Fethesda.

Mae 5 fflat hefyd yn cael eu llogi i denantiaid lleol a mae unedau masnachol yn cael eu rhentu allan yng Nghanolfan Cefnfaes. Mae incwm rhent yr eiddo yma yn mynd tuag at gostau cynnal a chadw'r adeiladau a chostau rhedeg Partneriaeth Ogwen sy'n cynnwys cyflogi Gofalwr Eiddo un diwrnod yr wythnos.

## Clercio

Mae Partneriaeth Ogwen yn darparu gwasanaeth clercio i dri Chyngor Cymuned - Cyngor Cymuned Bethesda, Cyngor Cymuned Llandygai a Chyngor Cymuned Llanllechid. Mae'r gwaith clercio yn cynnwys trefnu, paratoi dogfennau a chofnodi yng nghyfarfodydd y Cyngor, delio â gohebiaeth ac ymholiadau gan y cyhoedd a rheoli cyllid ar ran y Cynghorau. Mae'r Clercod yn arwain hefyd gyda gwaith ychwanegol megis cydlynu trefn taliadau pori Pwyllgor Mynydd Llanllechid a threfnu Is-bwyllgorau Cyllid y cynghorau. Mae Donna Watts yn clercio i Gyngor Cymuned Bethesda a Bethan Wyn Roberts bellach yn clercio i Gyngor Cymuned Llandygai a Llanllechid. Mae Bethan hefyd yn parhau i gefnogi Donna gyda gwaith clercio Cyngor Bethesda gyda Donna yn arwain rheolaeth cyllid a gweinyddu Partneriaeth Ogwen. Mae'r ddwy yn darparu gwasanaeth clercio o ansawdd uchel i 3 Chyngor Cymuned yr ardal.

Gyda chefnogaeth Cyngor Cymuned Bethesda a Llandygai, mae cyllideb wedi ei neilltuo i gyflogi Swyddog Cynnal i gasglu sbwriel yn yr ardal. Gadawodd Adam Quaek y swydd a bydd swyddog newydd yn dechrau ym mis Ionawr 2022.

## Marchnata, Ymgysylltu a Chyhoeddusrwydd

Mae Partneriaeth Ogwen yn cynnal dwy wefan www.partneriaethogwen.cymru <http://www.partneriaethogwen.cymru> a www.ogwen.cymru <http://www.ogwen.cymru> / www.ogwen.wales <http://www.ogwen.wales> Rydym hefyd yn cynnal cyfrifon Facebook - Ogwen360, Ynni Ogwen a Siop Ogwen a grwpiau Dyffryn Gwyrdd, Beics Ogwen, Cadwyn Ogwen, Pantri Pesda a Petha gan ddiweddaru'r tudalennau hyn yn gyson. Mae gennym hefyd gyfrifon Trydar @SiopOgwen a @YnniOgwen ac mae'r holl gyfrifon hyn yn cael eu dilyn gan dros fil o ddilynwyr. Mae'r holl waith marchnata a chyhoeddusrwydd yn cael ei

rannu rhwng staff craidd y Bartneriaeth. Rydym hefyd wedi datblygu sianelau Youtube a sianel ar blatfform newydd www.amam.cymru.

Mae'r Bartneriaeth hefyd yn derbyn ceisiadau i siarad gyda mudiadau lleol a chenedlaethol am ein prosiectau. Roedd y cyflwyniadau hyn yn cynnwys cyflwyno yng nghynhadledd Cop26 Llywodraeth Cymru a chyflwyno i Gynhadledd Twristiaeth Gynaladwy Gwynedd. Yn ogystal â'r cyflwyniadau, rydym wedi cael ymweliadau gan nifer o aelodau cynulliad yn cynnwys y Prif Weinidog Mark Drakeford, Sian Gwenllian AS, Lee Waters AS, Carolyn Thomas AS.

MD 07/12/2021

PARTNERIAETH OGWEN